



Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru Adroddiad Blynyddol

Beth rydyn ni wedi ei wneud yn 2019 i 2020

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o **Cynllun Gwelliant Blynyddol Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru 2019-2020**.

Tachwedd 2020



Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall. Mae'r geiriau a beth maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.




Efallai y byddwch angen help a chefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen yma. Gofynnwch i rhywun rydych yn ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain mewn **ysgrifen glas trwm**. Mae beth maen nhw'n feddwl yn cael ei esbonio yn y blwch o dan y gair.



Os ydy'r gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto mae mewn **ysgrifen glas normal**. Gallwch weld beth maen nhw'n feddwl ar **dudalen 22**.



Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru**. Am ragor o wyubodaeth cysylltwch gyda:

Gwefan: www.decymru-tan.gov.uk

E-bost: HYS@southwales-fire.gov.uk

Ffôn: 01443 232000



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

Cyflwyniad

Tudalen

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma.....	2
Cyflwyniad.....	4
Ar beth rydyn ni wedi bod yn gweithio.....	6
1. Eich helpu chi mewn argyfwng.....	6
2. Eich cadw chi'n ddiogel.....	8
3. Dweud wrth bobl am yr hyn rydyn ni'n ei wneud.....	11
4. Edrych ar ôl y bobl sydd yn gweithio inni.....	14
5. Edrych ar ôl ein hamgylchedd.....	16
6. Defnyddio technoleg yn well.....	18
7. Gweithio gydag eraill i helpu ein cymunedau	19
Geiriau anodd.....	22

Cyflwyniad



Ni ydy **Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru**.



Rydyn ni eisiau cadw De Cymru yn ddiogel rhag tanau a pheryglon eraill.



Fe fyddwn ni'n helpu pobl drwy ymladd tanau. Rydyn ni hefyd yn helpu gydag argyfyngau eraill, fel damweiniau ffyrdd, neu pan mae pobl mewn perygl yn y dŵr.



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr ein bod ni'n gallu rhoi'r help cywir i:

- y cymunedau rydyn ni'n gweithio gyda nhw nawr
- y bobl sydd yn gweithio inni nawr
- pobl yn y dyfodol.





Rydyn ni wedi bod yn gweithio ar ffyrdd i wneud ein gwasanaeth yn well.



Mae'r ddogfen yma am y pethau rydyn ni wedi bod yn gweithio arnyn nhw rhwng 2019 a 2020.



Mae'n dweud wrthych chi beth rydyn ni wedi ei wneud i wneud ein gwasanaethau yn well.

Ar beth rydyn ni wedi bod yn gweithio

1. Eich helpu chi mewn argyfwng

Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr eich bod chi'n cael yr help cywir mewn argyfwng. Y flwyddyn yma:



- Rydyn ni wedi prynu offer gwell i'ch cadw chi a'n hymladdwyr tân yn ddiogel.



- Rydyn ni wedi gwneud yn siŵr bod gennym ni ddigon o ymladdwyr tân a staff cefnogi i wneud ein gwaith yn dda.



- Rydyn ni wedi rhoi hyfforddiant newydd i'n hymladdwyr tân i'w helpu nhw i wneud eu gwaith.



- Rydyn ni wedi meddwl am ffyrdd gwell o helpu pobl mewn adeiladau uchel pan mae argyfwng.



- Rydyn ni wedi darganfod ffyrdd newydd o edrych i weld os ydyn ni'n gwneud gwaith da.



- Rydyn ni wedi rhannu gwybodaeth am stopio **tanau gwyllt** gyda chyrff o gwmpas y byd.

Tân gwyllt ydy tân sydd ddim ei eisiau ac sydd yn methu cael ei reoli mewn coedwigoedd neu yng nghefn gwlad. Mae **tanau gwyllt** yn lledaenu'n gyflym ac maen nhw'n gallu bod yn anodd i'w diffodd.

2. Eich cadw chi'n ddiogel



Rydyn ni eisiau cadw pobl yn y gymuned, a'n hymladdwyr tân yn ddiogel.



Rydyn ni wedi siarad gyda phobl yn y gymuned am:



- Offer maen nhw eu hangen i gadw'n ddiogel. Er enghraifft, larymau mwg.



- Sut i stopio tanau ac argyfyngau eraill rhag digwydd.



- Beth mae angen i bobl sydd yn byw mewn adeiladau uchel ei wneud mewn argyfwng.

Rydyn ni wedi gweithio gyda:



- **Gwasanaethau Brys** eraill i rannu gwybodaeth am gadw pobl yn ddiogel.

Gwasanaethau Brys ydy gwasanaethau i'w galw mewn argyfwng. Yr heddlu, Tân ac Achub, Ambiwylans.



- Heddlu De Cymru i wneud ffyrdd yn Ne Cymru'n fwy diogel i bawb.



- Cyrff eraill i rannu gwybodaeth ar gadw pobl yn ddiogel yn y gwaith ac yn y gymuned.

Rydyn ni hefyd wedi:



- Casglu'r holl wybodaeth am adeiladau uchel yn Ne Cymru sydd efallai ddim yn ddiogel. Er enghraifft, swyddfeydd, busnesau, cartrefi pobl mewn fflatiau blociau tŵr a chartrefi gofal a nyrsio.



- Dechrau prosiect gyda phobl sydd wedi cael tân yn eu tŷ. Rydyn ni'n gallu dysgu o beth sydd wedi digwydd iddyn nhw.



- Gweithio ar restrau gwirio i gartrefi ac adeiladau. Mae hyn yn ein helpu i ddeall risgiau, pa argyfyngau sydd yn gallu digwydd a sut rydyn ni'n gallu helpu.

3. Dweud wrth bobl am yr hyn rydyn ni'n ei wneud



Roedden ni eisiau meddwl am wahanol ffyrdd o **gyfathrebu** gyda'r cymunedau lle rydyn ni'n gweithio.



Mae **cyfathrebu** yn meddwl sut rydyn ni'n rhoi gwybodaeth i bobl. Mae'n meddwl pethau fel siarad, ysgrifennu, digwyddiadau, fideos a chyfryngau cymdeithasol.




Rydyn ni wedi gwneud tudalennau Facebook i bob un o'r Gorsafoedd Tân. Mae'r tudalennau yma:



- yn dweud wrth bobl am swyddi



- yn dangos i bobl sut i stopio tanau ac argyfyngau eraill rhag digwydd



- yn dweud wrth bobl am ddigwyddiadau sydd yn digwydd yn eu cymunedau lleol.



Rydyn ni wedi siarad am y gwaith rydyn ni'n ei wneud ar y Teledu a'r Radio.



Rydyn ni wedi dangos fideos ar y cyfryngau cymdeithasol am:



- Defnyddio trydan yn ddiogel.



- Cael gwared ar sbwriel yn ddiogel.



Rydyn ni wedi defnyddio cyfrifiaduron a fideo i gael cyfarfodydd a digwyddiadau hyfforddi.



Rydyn ni wedi cael cyfarfodydd a digwyddiadau mewn:

- ysgolion a cholegau,
- grwpiau cymunedol a
- carchardai.



Rydyn ni wedi cael digwyddiadau lle roedd pobl yn dod i ddysgu am swyddi a gweithio gyda ni.



Rydyn ni wedi gwneud hyfforddiant i fenywod sydd wedi cael eu cam-drin yn eu cartrefi eu hunan drwy'r **Prosiect Momentwm**.



Rydyn ni wedi cymryd rhan mewn digwyddiad 999 mawr ym Mae Caerdydd. Roedd yr holl **wasanaethau brys** yno i ddweud rhagor wrth bobl am beth maen nhw'n ei wneud.

4. Edrych ar ôl y bobl sydd yn gweithio inni



Rydyn ni eisiau edrych ar ôl y bobl sydd yn gweithio inni i'w helpu nhw i wneud eu gwaith yn dda.

Rydyn ni wedi helpu pobl sydd yn gweithio inni i gadw'n iach ac yn heini drwy:



- Dechrau dosbarthiadau ffitrwydd yn y gwaith.



- Rhoi cyngor am ymarfer a bwyta'n iach.



- Dechrau prosiect i helpu pobl i gadw'n iach ac yn hapus.



Rydyn ni wedi gwneud yn siŵr bod gan bobl hyfforddiant newydd a gwell i'w helpu nhw i wneud eu gwaith yn dda.



Rydyn ni wedi agor **Cyfleuster Hyfforddiant Tân Go Iawn** yng Nghaerdydd. Mae hwn yn adeilad lle mae ymladdwyr tân yn gallu ymarfer delio gyda thanau go iawn ac argyfyngau eraill.



Rydyn ni wedi dechrau edrych i weld bod y bobl sydd yn gweithio inni yn cael eu talu'n deg am y gwaith maen nhw'n ei wneud.

5. Edrych ar ôl ein hamgylchedd



Rydyn ni wedi ysgrifennu ein cynllun ein hunain ar sut fyddwn ni'n edrych ar ôl yr **amgylchedd** am y 3 blynedd nesaf. Y flwyddyn yma:



- Rydym ni wedi stopio defnyddio tyweli papur yn ein hystafelloedd ymolchi.



- Rydym ni wedi newid y ffordd rydym ni'n defnyddio'r gwres yn ein hadeiladau ac felly rydym ni'n defnyddio llai o nwy nawr.



- Rydym ni wedi prynu 3 fan trydan newydd ac rydym ni'n gobeithio prynu 22 o faniau eraill.



- Rydym ni wedi aildefnyddio rhai o'n dodrefn swyddfa yn lle prynu rhai newydd.



- Rydyn ni wedi defnyddio fideo i gael cyfarfodydd ar ein cyfrifiaduron yn lle teithio.



- Rydyn ni wedi gwneud yn siŵr ein bod dim ond yn prynu beth rydyn ni ei angen, pan rydyn ni ei angen.



- Mae gennym ni fanciau dillad i **ailgylchu** ac **aildefnyddio** dillad.

Ailgylchu ein sbwriel. Mae hyn yn meddwl cymryd ein sbwriel a'i droi yn rhywbeth arall rydyn ni'n gallu ei ddefnyddio.

Aildefnyddio pethau eto. Er enghraifft poteli llaeth gwydr sydd yn gallu cael eu hail-lenwi pan rydych chi wedi gorffen.

6. Defnyddio technoleg yn well

Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod gennym ni yr offer cywir i wneud ein gwaith yn well. Y flwyddyn yma:



- Rydyn ni wedi gwneud yn siŵr bod yr wybodaeth sydd gennym ni ar ein cyfrifiaduron yn ddiogel. Dim ond y bobl sydd yn gweithio inni sydd yn gallu ei weld.



- Rydyn ni wedi hyffordd’ir bobl sydd yn gweithio inni i gadw gwybodaeth yn ddiogel ar ein cyfrifiaduron.



- Rydyn ni wedi creu grŵp i siarad am rannu gwybodaeth yn ddiogel yn Ne Cymru.



- Rydyn ni wedi gwneud yn siŵr ein bod yn gadael i’r bobl gywir wybod pan mae rhywbeth wedi mynd o’i le gyda’n gwybodaeth.



- Rydyn ni wedi prynu dillad newydd i gadw ein hymhladdwyr tân yn ddiogel yn y gwaith.

7. Gweithio gydag eraill i helpu ein cymunedau



Rydyn ni'n gweithio gydag eraill i gadw pobl yn ddiogel. Yn cynnwys Cynghorau Lleol, Ysgolion, Colegau, Gwasanaeth Cyhoeddus a Byrddau Iechyd.



Rhwng 2019 a 2020 rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda chyrff eraill i ddarganfod lleoedd i blannu rhagor o goed.



Mae plannu coed yn helpu i:



- glanhau'r aer



- rhoi cartref i fywyd gwylt



- stopio sŵn



- rhoi lleoedd i bobl ymlacio ac i ymarfer



- stopio llifogydd.



Rydyn ni wedi dechrau 9 **prentisiaeth** newydd yn ein gwasanaeth.

Prentisiaeth ydy pan mae person yn dysgu gwaith neu sgil newydd tra'n gweithio ac yn cael eu talu.



Rydyn ni wedi gweithio gyda chyrff eraill i gefnogi pobl i gadw'n ddiogel. Yn cynnwys:



- Pobl sydd wedi cael eu cam-drin.

- Pobl sydd yn y carchar.



- Pobl sydd gyda **Dementia**.

- Plant a Phobl Ifanc.



- Pobl gyda phroblemau iechyd meddwl.



Rydyn ni wedi gweithio gyda chyrff eraill i geisio stopio **galwadau ffug**.

Galwadau ffug ydy pan rydyn ni'n gadael i fynd i ateb argyfwng ond pan rydyn ni'n cyrraedd does dim argyfwng.

Geiriau anodd

Ailddefnyddio

Ailddefnyddio pethau eto. Er enghraifft poteli llaeth gwydr sydd yn gallu cael eu hail-lenwi pan rydych chi wedi gorffen.

Ailgylchu

Ailgylchu ein sbwriel. Mae hyn yn meddwl cymryd ein sbwriel a'i droi yn rhywbeth arall rydyn ni'n gallu ei ddefnyddio.

Cyfathrebu

Mae cyfathrebu yn meddwl sut rydyn ni'n rhoi gwybodaeth i bobl. Mae'n meddwl pethau fel siarad, ysgrifennu, digwyddiadau, fideos a chyfryngau cymdeithasol.

Galwadau Ffug

Galwadau ffug ydy pan rydyn ni'n gadael i ateb argyfwng ond pan rydyn ni'n cyrraedd does dim argyfwng.

Gwasanaethau Brys

Gwasanaethau i'w galw mewn argyfwng. Yr Heddlu, Tân ac Achub, Ambiwylans.

Tanau gwyllt

Tân gwyllt ydy tân sydd ddim ei eisiau ac sydd yn methu cael ei reoli mewn coedwigoedd neu gefn gwlad. Mae tanau gwyllt yn lledaenu'n gyflym ac maen nhw'n gallu bod yn anodd i'w diffodd.

Prentisiaeth

Prentisiaeth ydy pan mae person yn dysgu swydd neu sgil newydd tra'n gweithio ac yn cael eu talu.